Capel Ebeneser, Treuddyn

**Newyddion Diweddaraf**

**Ionawr 2025 – Gorffennaf 2025**

Ar ddechrau'r flwyddyn, bu'r Capel trwy raglen o atgyweirio. Ailosodwyd rhan o'r llawr ochr yr organ o'r capel a hefyd tynnwyd y byrddau 'dado' oddi ar y wal yr un ochr. Mae system gwresogi newydd wedi cael ei osod i gymryd lle'r ddau hen foelar. Rydym rŵan yn ôl yn y capel yn dilyn cwblhau'r gwaith. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd yn ystod y cyfnod yma.

Yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror cynhaliwyd gwasanaethau gan y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans a'r Parchedig Marc Morgan. Eleni cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Ebeneser ar ddydd Sul, Mawrth 9fed am 2.30yp. Merched Ynysoedd Cook sydd wedi paratoi'r rhaglen eleni ar y thema 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'. Bydd y gwasanaeth yn ddwyieithog ac estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Gyda'r awr yn newid diwedd mis Mawrth, bydd amser ein gwasanaethau yn newid o'r prynhawn i 6 o'r gloch yr hwyr. Byddwn yn cynnal gwasanaeth dwyieithog ar Fawrth 23ain pan fydd Mrs Sian Williams efo ni. Bydd ein Rali flynyddol ar Fehefin 8fed dan arweiniad y Parchedig Jeanette Wilkes hefyd yn wasanaeth dwyieithog ac estynnwn groeso cynnes iawn i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau dwyieithog hyn. Ar ddydd Gwener y Groglith, Ebrill 18fed am 10.30 y bore cynhelir gwasanaeth Cymun dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion gweddill ein hoedfaon gweler y rhestr isod.

Cynhelir Clwb Capel Ebeneser, sef yr Ysgol Sul dan ofal Mrs Alaw Smith, ar y Sul cyntaf o bob mis am 10 y bore. Estynnir croeso cynnes i blant a'u rhieni/oedolyn i ymuno â sesiynau'r Clwb.

Yn ystod misoedd y Gwanwyn a'r Haf, bydd Cymdeithas y Capel yn cymryd lle ar yr ail nos Fawrth o'r mis am 7 yr hwyr yn Ysgoldy Ebeneser. Byddwn yn cyhoeddi'r rhaglen o'r gweithgareddau unwaith bydd wedi'i gwblhau. Bydd croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni ar y nosweithiau hyn.

**Ar ddydd Sadwrn, Ebrill 12fed am 3 y pnawn byddwn yn cynnal Te Prynhawn yn Hafan Deg.** Pris mynediad fydd £4.00. Byddwn yn falch iawn o bob cefnogaeth.

Anfonwn ein dymuniadau gorau ac iechyd da i bawb yn ystod y flwyddyn i ddod gan edrych ymlaen at weld ffrindiau, hen a newydd, yn ein gwasanaethau yn ystod 2025.

## Gwasanaethau Mawrth – Gorffennaf 2025 (**amser fel y nodir**)

| | |
|---|---|
| Mawrth 2il | Mrs Maryl Rees am **2.30yp** |
| Mawrth 9fed | Dydd Gweddi'r Byd am **2.30yp** |
| Mawrth 23ain | Mrs Sian Williams am **2.30yp** (gwasanaeth dwyieithog) |
| Ebrill 6ed | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **6.00yh** **Cymun** |
| Ebrill 13eg | Parch Marc Morgan am **6.00yh** |

Dydd Gwener y Groglith, Ebrill 18fed Parch Eirlys Gruffydd Evans am **10.30yb**

| | |
|---|---|
| Ebrill 20fed | Miss Llinos Mary Jones am **6.00yh (Sul y Pasg)** |
| Ebrill 27ain | Parch Ddr Jennie Hurd am **6.00yh** |
| Mai 4ydd | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **6.00yh Cymun** |
| Mai 11eg | Parch Marc Morgan am **6.00yh** |
| Mai 18fed | Mrs Elizabeth Jones am **6.00yh** |
| Mehefin 1af | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **6.00yh Cymun** |
| Mehefin 8fed | **RALI** - Parch Jeanette Wilkes am **6.00yh** (gwasanaeth dwyieithog) |
| Mehefin 22ain | Parch Marc Morgan am **6.00yh** |
| Mehefin 29ain | Mrs Marion Simkin **am 6.00yh** |
| Gorffennaf 13eg | Mrs Marion Simkin **am 6.00yh** |
| Gorffennaf 20fed | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **6.00yh Cymun** |
| Gorffennaf 27ain | Parch Ddr Jennie Hurd am **6.00yh** |